

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(CYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD)
(TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A
DIM GODDIWEDDYD) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, wrth Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 10 mya dros dro a gwahardd goddiweddyd yn ystod gwaith confoi ar y darn cyfan o gerbyttfordd gylchredol yr A470 wrth Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch rhwng 5 Ionawr 2025 a 7 Ionawr 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (CORYTON
INTERCHANGE, CARDIFF) (TEMPORARY 10
MPH SPEED LIMIT AND NO OVERTAKING)
ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Coryton Interchange, Cardiff.


The effect of the Order is to temporarily impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking during convoy work on the entire length of the A470 circulatory carriageway at Coryton Interchange, Cardiff.

It is expected that the restriction and prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight between 20:00 hours and 06:00 hours from 5 January 2025 until 7 January 2025 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government